BBC **UNED LYWODRAETHU**

Pwyllgor Cwynion am Raglenni Llywodraethwyr y BBC:

Gweithdrefnau drafft ar gyfer ymdrin â chwynion

27 Chwefror 2006

YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 24 Mawrth 2006

Rhagair gan Gadeirydd Pwyllgor Cwynion am Raglenni y Llywodraethwyr

Mae Bwrdd Llywodraethwyr y BBC o'r farn y dylai'r cyhoedd fod yn ganolog i bopeth mae'r sefydliad yn ei wneud. Mae gan y bobl sy'n talu am drwydded hawl i ddisgwyl y safonau golygyddol uchaf gan y BBC, a hawl i'w herio os ydynt yn anhapus â safonau unrhyw allbwn.

Mae'r BBC yn trin cwynion o ddifrif, ac mae am sicrhau bod ei brosesau cwyno'n deg, eglur ac effeithlon. I'r diben hwn, cyflwynodd rheolwyr y BBC system newydd ar gyfer ymdrin â chwynion, yn cynnwys Cod Ymarfer, ym mis Chwefror 2005.

Mae Pwyllgor Cwynion am Raglenni y Llywodraethwyr (GPCC) yn cynorthwyo'r Llywodraethwyr i sicrhau bod y BBC yn ymdrin â chwynion yn y modd cywir. Dyma'r cam olaf ym mhroses cwynion golygyddol y BBC hefyd, ac felly mae'n ystyried apeliadau gan bobl sydd wedi gwneud cwyn olygyddol ddifrifol i Reolwyr y BBC ond sy'n anfodlon â'r ymateb.

Fel rhan o'n hamcanion ehangach i ddarparu mwy o dryloywder ac atebolrwydd, mae'r GPCC wedi cynnig cyfres o ganllawiau cyhoeddus, sy'n amlinellu'r ffordd y bydd yn ystyried ac yn ymdrin ag apeliadau. Rydym hefyd wedi cynnig sawl newid penodol a fydd yn gwella'r broses apelio yn ein barn ni. Yn y dyfodol, rydym yn cynnig y dylai pawb gael cyfle fel rheol i gynnig sylwadau ar ddeunydd a ddarperir i'r GPCC wrth iddo wneud ei benderfyniad. O ran rhai o'r cwynion parti cyntaf, rydym yn cynnig y dylai'r GPCC allu cynnal gwrandawiad os yw'n dymuno gwneud hynny. Cwynion parti cyntaf yw lle mae rhywun yn cwyno am driniaeth annheg neu dorri cyfrinachedd sydd wedi effeithio arno'n bersonol ac uniongyrchol.

Mae fersiwn drafft o'r gweithdrefnau fydd yn llunio'r canllawiau cyhoeddus ynghlwm ar ddiwedd y ddogfen hon. Hoffai'r Llywodraethwyr hefyd glywed safbwyntiau amrywiaeth eang o bobl ar y syniadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon. Gobeithiwn y gwnewch chi roi o'ch amser i ymateb i'n syniadau. Rydym yn bwriadu defnyddio'r ymatebion hyn i greu fersiwn terfynol o'r gweithdrefnau, ac yna cyflwyno'r canllawiau newydd yn ystod y misoedd nesaf.

Richard Tait
Cadeirydd GPCC

Chwefror 2006

Cynnwys

Rhagair gan Gadeirydd y GPCC

1. Cyflwyniad

2. Gweithdrefnau Diwygiedig ar gyfer Pwyllgor Cwynion am Raglenni y Llywodraethwyr

3. Cwestiynau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn

4. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Atodiad

A Gweithdrefnau GPCC drafft

1. Cyflwyniad

Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno gweithdrefnau drafft newydd ar gyfer proses ymdrin ag apeliadau gan Bwyllgor Cwynion am Raglenni y Llywodraethwyr (GPCC).

Is-bwyllgor Bwrdd Llywodraethwyr y BBC[1] yw'r GPCC. Mae'n gyfrifol am gynorthwyo'r Llywodraethwyr i sicrhau bod y BBC yn ymdrin â phob cwyn olygyddol mewn modd cywir. Yn benodol, mae'r GPCC yn ystyried apeliadau lle mae'n bosib nad yw'r gŵyn olygyddol yn bodloni Canllawiau Golygyddol y BBC; mae wedi bod trwy broses gwynion rheolwyr y BBC eisoes; a lle nad yw'r achwynydd yn fodlon â'r ymateb mae ef/hi wedi'i dderbyn.

Er mwyn gwella tryloywder a gwrthrychedd y system, mae Llywodraethwyr y BBC wedi cynhyrchu cyfres ddrafft o weithdrefnau cyhoeddus ar gyfer ymdrin â chwynion golygyddol gan y GPCC. Dyma'r tro cyntaf i'r gweithdrefnau gael eu cyflwyno'n eglur a'u cyhoeddi ar gyfer y cyhoedd. **Mae'r gweithdrefnau drafft ynghlwm yn Atodiad A y ddogfen hon.**

Nodwch y gall y rheoleiddiwr Ofcom hefyd dderbyn cwynion am raglenni radio a theledu gan y cyhoedd, ac eithrio yng nghyswllt materion sy'n ymwneud ag amhleidioldeb neu gywirdeb. Yn yr achosion hyn, Bwrdd Llywodraethwyr y BBC yw'r unig reoleiddiwr. Gweler www.ofcom.org.uk

Yr ymgynghoriad hwn

Mae Llywodraethwyr y BBC yn awyddus i dderbyn sylwadau am y cynigion hyn, ac maent bellach yn ymgynghori'n gyhoeddus ar y gweithdrefnau drafft. Mae rhestr o gwestiynau i gynorthwyo gyda'r ymgynghoriad hwn ar gael y Adran 3.

Camau nesaf

Bydd y Bwrdd Llywodraethwyr yn cyhoeddi crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar ei wefan. Ar ôl ystyried yr ymatebion yn ofalus, bydd y Llywodraethwyr yn cyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer y GPCC yn ddiweddarach eleni.

Rydym yn bwriadu rhoi gweithdrefnau newydd y GPCC ar waith yn ystod cyfnod y Siarter presennol er mwyn gwella'r prosesau ar gyfer achwynwyr cyn gynted â phosib. Fodd bynnag, bydd gan Ymddiriedolaeth y BBC hawl o reidrwydd i benderfynu ar ei gweithdrefnau ei hun pan ddaw i rym.

[1] Mae rhagor o fanylion am waith a chyfansoddiad Pwyllgor Cwynion am Raglenni y Llywodraethwyr ar gael yn www.bbcgovernors.co.uk/docs/submeetings.html#complaints.

2. Gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer Pwyllgor Cwynion am Raglenni y Llywodraethwyr

Mae Atodiad A yn cynnwys gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer ymdrin ag apeliadau gan Bwyllgor Cwynion am Raglenni y Llywodraethwyr (GPCC). Ysgrifennwyd y ddogfen weithdrefnau i'w chyhoeddi fel esboniad i'r cyhoedd o'r ffordd y bydd y GPCC yn ymdrin â chwynion.

Nid yw'r Llywodraethwyr yn cynnig y dylai proses gwynion **gyffredinol** y BBC newid. Bydd Rheolwyr y BBC yn parhau i ymdrin â chwynion golygyddol yn y lle cyntaf. Yna bydd y GPCC yn ystyried apeliadau dilynol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyfeirio at weithdrefnau'r GPCC yn unig. Dylid parhau i wneud cwynion unigol i Reolwyr y BBC – am ragor o fanylion gweler: www.bbc.co.uk/complaints

Nodweddion newydd arfaethedig proses GPCC

Yn ogystal â chyflwyno'r gweithdrefnau am y tro cyntaf, mae'r Llywodraethwyr wedi argymell cyflwyno mesurau ychwanegol i gryfhau gwrthrychedd ac effeithiolrwydd y broses apelio. Amlinellir y rhain yn fwy manwl isod:

- Rhannu deunydd y dibynnir arno gyda'r ddau barti i gynnig sylwadau

  Yn y dyfodol, mae'r Llywodraethwyr yn argymell y dylai achwynwyr a gwneuthurwyr rhaglenni gael cyfle fel rheol i roi sylwadau ar gyngor a deunydd arall a gyflwynir i'r GPCC cyn iddo wneud penderfyniad.

  Yn ôl y cynigion hyn, gallai'r GPCC ddibynnu ar amrywiaeth o ddeunyddiau wrth wneud ei benderfyniad, yn cynnwys cyngor gan Gynghorydd Golygyddol, Archwilydd Annibynnol, trawsgrifiadau neu recordiadau o raglenni, ymchwil gefndir, ac, yn achlysurol, cyngor arbenigol allanol. Cynigir y dylid anfon deunydd o'r fath at achwynwyr a gwneuthurwyr rhaglenni fel rheol er mwyn iddynt gynnig sylwadau arnynt. Byddai'r sylwadau hyn yn cael eu cyflwyno i'r GPCC wedyn i lywio ei benderfyniad.

Cynigir y dylid defnyddio'r egwyddor hon ar gyfer cwynion parti cyntaf a chwynion trydydd parti. Cwynion parti cyntaf yw lle mae rhywun yn cwyno am driniaeth annheg neu dorri cyfrinachedd sydd wedi effeithio arno'n bersonol ac uniongyrchol. Cwynion eraill yw cwynion trydydd parti – lle mae'r achwynydd o'r farn bod rhyw agwedd arall ar y Canllawiau Golygyddol wedi'i thorri, ond nad yw'r mater yn ymwneud ag ef yn bersonol. Cyhoeddir y Canllawiau Golygyddol yn: http://www.bbc.co.uk/guidelines/editorialguidelines/

Mae rhai eithriadau:

- Ni fydd nodiadau neu ddeunyddiau eraill sy'n datgelu ffynhonnell gyfrinachol yn cael eu rhannu
- Polisi'r BBC yw peidio â rhyddhau deunydd ffilm/fideo na chafodd ei ddarlledu'n wreiddiol fel rhan o raglen ("deunydd heb ei olygu"). Fodd bynnag, gellir darparu crynodeb o gynnwys deunydd heb ei olygu y dibynwyd arno i'r achwynydd lle mae hynny'n berthnasol. Mewn achosion eithriadol, lle mae'n debygol y bydd penderfyniad yn cael ei seilio ar gynnwys y deunydd heb ei olygu, cynigir y gellid dangos rhai trawsgrifiadau i'r achwynydd neu roi cyfle iddo weld deunydd penodol sydd heb ei olygu.

- <u>Gwrandawiadau ar gyfer cwynion parti cyntaf</u>

  Ystyrir y mwyafrif o apeliadau ar ffurf ysgrifenedig yn unig.

  O ran rhai cwynion parti cyntaf (h.y. os oes gan unigolyn gŵyn am driniaeth annheg neu dorri cyfrinachedd sydd wedi effeithio arno'n bersonol ac uniongyrchol), rydym yn cynnig y dylai Cadeirydd y GPCC allu galw am wrandawiad llafar os yw'n dymuno gwneud hynny.

  Byddai'r rhain yn cael eu cynnal yn yr achosion mwyaf difrifol yn unig a lle na ellid mynd i'r afael â ffeithiau arwyddocaol mae anghytuno yn eu cylch yn foddhaol trwy gyflwyniadau ysgrifenedig, ac, ym marn y Cadeirydd, y byddai posib eu datrys mewn gwrandawiad.

  Cynigir y byddai'r ddau barti'n bresennol ar gyfer cyflwyniadau a sesiynau cwestiynu ei gilydd. Gallai cynghorwyr/cefnogwyr fod yn bresennol gyda'r partïon ond dim ond gyda chaniatâd Cadeirydd y GPCC y gallai cynrychiolwyr cyfreithiol fynychu gwrandawiad.

- <u>Ychwanegu penderfyniad newydd ar gyfer penderfyniadau'r GPCC</u>

  Mae'r Llywodraethwyr yn argymell y dylai penderfyniadau'r GPCC gynnwys penderfyniad "wedi'i ddatrys eisoes" newydd hefyd. Byddai'n cael ei ddefnyddio mewn achosion lle bu camgymeriad, ac mae'r GPCC yn fodlon bod Rheolwyr y BBC wedi cydnabod y broblem ac wedi ymdrin â'r mater mewn ffordd addas eisoes. Yn ogystal, dylai pob penderfyniad yn y dyfodol nodi a oes angen camau adfer ai peidio.

3. Cwestiynau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn

Croesawn eich sylwadau am y gweithdrefnau drafft sydd ynghlwm ar ddiwedd y ddogfen hon. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich atebion i'r cwestiynau canlynol:

1. A yw dogfen y gweithdrefnau drafft yn eglur? A yw cywair ac arddull y ddogfen yn addas?

2. A oes unrhyw faterion penodol yn ymwneud â mynediad i'r gweithdrefnau apelio i bobl ag anghenion arbennig y dylem eu hystyried?

3. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr amgylchiadau mae'r GPCC yn cynnig cynnal gwrandawiadau llafar ynddynt (fel yr amlinellir yn Adran 5 y Gweithdrefnau drafft)?

4. A oes gennych unrhyw sylwadau am y fformat arfaethedig ar gyfer gwrandawiadau llafar?

5. A ydych yn cytuno â'r rhestr sancsiynau arfaethedig (fel yr amlinellir yn Adran 6 y gweithdrefnau drafft)?

6. Gan ystyried yr amser ychwanegol y byddai'n ei gymryd, ydych chi'n cytuno â'r cynnig i rannu deunyddiau gydag achwynwyr a chyflenwyr rhaglenni?

7. A oes gennych unrhyw sylwadau am y gweithdrefnau neu ddogfen y gweithdrefnau?

Nodwch na fydd yr ymgynghoriad hwn yn ystyried cwynion ac apeliadau penodol am allbwn y BBC. Ni fydd yn ail-agor cwynion blaenorol mae'r GPCC wedi ymdrin â nhw. Dylid cyfeirio unrhyw gwynion newydd at www.bbc.co.uk/complaints <http://www.bbc.co.uk/complaints> neu ysgrifennu at:

BBC Complaints,
PO Box 1922,
Glasgow G2 3WT

Neu ffoniwch:

08700 100 222

4. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae Llywodraethwyr y BBC yn gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn rhwng 27 Chwefror 2006 a 24 Mawrth 2006. Os hoffech ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gallwch anfon eich ymateb i:

GPCC consultation
BBC Governance Unit
211, 35 Marylebone High Street
Llundain, W1U 4AA

Neu anfonwch e-bost i: gpcc.consultation@bbc.co.uk

Cwblhewch y datganiad cyfrinachedd ar y dudalen nesaf wrth i chi ymateb.

24 Mawrth 2006 yw'r dyddiad terfynol ar gyfer derbyn ymatebion.

Mae cyfieithiadau sain a Braille ar gael ar gais trwy ffonio'r Uned Lywodraethu ar 0800 068 0116.

Sut y byddwn yn defnyddio'ch ymateb

Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion ar wefan y Llywodraethwyr: www.bbcgovernors.co.uk. Efallai y bydd y Pwyllgor am gyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad yn llawn hefyd.

Felly llofnodwch y Datganiad trosodd i ddynodi eich bod yn fodlon i ran o'ch ymateb neu'ch holl ymateb gael ei gyhoeddi.

Os ydych am i ran o'ch ymateb neu'ch holl ymateb gael ei drin yn gyfrinachol, nodwch hyn yn eglur yn eich cyflwyniad.

Bydd y Llywodraethwyr yn ystyried pob ymateb yn ofalus, cyn llunio'r gweithdrefnau terfynol ar gyfer y GPCC. Byddant yn cael eu cyhoeddi wedyn ar wefan y Llywodraethwyr maes o law.

ARGRAFFWCH Y DATGANIAD HWN A'I LOFNODI OS YDYCH YN ANFON COPI CALED O'CH YMATEB. OS YDYCH YN ANFON YMATEB ELECTRONIG, COPÏWCH Y DATGANIAD HWN I'R YMATEB A'I GWBLHAU.

Os ydych am i ran o'ch ymateb neu'ch holl ymateb gael ei drin yn gyfrinachol, cwblhewch yr adran gyfrinachedd isod.

Beth ydych chi am i Lywodraethwyr y BBC ei gadw'n gyfrinachol?

Dim	▪▪
Yr holl ymateb	▪▪
Rhan o'r ymateb	▪▪
Pa ran?	[nodwch]

Enw
Swydd
Sefydliad
Cyfeiriad
Manylion cyswllt eraill (ffôn, ebost)

Nodwch y gallwn gyfeirio at gynnwys yr ymatebion yn gyffredinol, heb ddatgelu gwybodaeth benodol sy'n gyfrinachol. Byddwn yn rhoi sylw dyledus i gyfrinachedd y wybodaeth a dderbyniwn.

DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth rwyf wedi ei chyflwyno yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad. Gellir ei gyhoeddi'n llawn ar wefan Llywodraethwyr y BBC, oni nodir yn wahanol, ac rwy'n awdurdodi Llywodraethwyr y BBC i ddefnyddio'r wybodaeth yn yr ymateb hwn o fodloni eu gofynion cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy'r ebost, gall y BBC ddiystyru unrhyw destun safonol yn yr e-bost am beidio â datgelu cynnwys yr ebost nac unrhyw ddogfennau sydd ynghlwm.

Enw Llofnod (os yw'n gopi caled)

……..

ATODIAD A: GWEITHDREFNAU DRAFFT Y GPCC

Ysgrifenwyd y ddogfen i hon i'w chyhoeddi fel esboniad i achwynwyr o'r ffordd y bydd cwynion yn cael eu trafod.

Pwyllgor Cwynion am Raglenni y Llywodraethwyr:

Sut y trafodir apeliadau

Cyflwyniad

Llywodraethwyr y BBC yw aelodau Pwyllgor Cwynion am Raglenni y Llywodraethwyr (GPCC). Gwaith y Llywodraethwyr yw sicrhau bod rheolwyr y BBC yn ymdrin â chwynion yn y modd cywir ac mae'r GPCC yn cynorthwyo gyda'r cyfrifoldeb hwn. Am esboniad llawn o swyddogaeth a chyfrifoldebau'r GPCC, darllenwch ei "Gylch Gorchwyl", sydd ar gael yn bbcgovernors.co.uk neu ar ffurf copi caled gan y Cynghorydd Cwynion, Uned Lywodraethu'r BBC. Gweler Adran 7 am fanylion cyswllt.

Mae cyfrifoldebau'r GPCC yn cynnwys derbyn apeliadau gan bobl sydd wedi gwneud cwyn olygyddol i Uned Cwynion Golygyddol y BBC (neu mewn rhai achosion, a nodir isod, Cyfarwyddwr Isadrannol), ond sy'n anfodlon a'r ymateb a gawsant.

Mae'r ddogfen hon yn ateb y cwestiynau canlynol:

1. A yw fy nghwyn yn gymwys ar gyfer apelio i'r GPCC?
2. Sut alla i apelio?
3. Sut mae apêl yn cael ei pharatoi ar gyfer y GPCC?
4. Beth yw proses y GPCC ar gyfer ystyried apêl?
5. Alla i ofyn am wrandawiad?
6. Beth sy'n digwydd os bydd apêl yn cael ei chadarnhau?
7. Pwy ddylwn i gysylltu â nhw am y broses apelio?

Cefnogir y GPCC gan yr Uned Lywodraethu, adran o'r BBC sy'n atebol i'r Llywodraethwyr trwy'r Cyfarwyddwr Llywodraethu. Bydd sôn am y Pennaeth Atebolrwydd yn y ddogfen hon, sy'n goruchwylio gweithdrefnau'r GPCC yn yr Uned, a'r Cynghorydd Cwynion sy'n gyfrifol am y GPCC o ddydd i ddydd. Gall y GPCC alw ar Gynghorydd Golygyddol annibynnol - y tu allan i'r BBC.

Nodwch y gall y rheoleiddiwr Ofcom hefyd dderbyn cwynion am raglenni radio a theledu'n uniongyrchol gan y cyhoedd – ac eithrio yng nghyswllt materion sy'n ymwneud ag amhleidioldeb neu gywirdeb. Yn yr achosion hyn, Bwrdd Llywodraethwyr y BBC yw'r unig reoleiddiwr. Gweler www.ofcom.org.uk

Ein haddewid i chi yw y bydd y broses ar gyfer ymdrin ag apeliadau i'r GPCC:

- Yn cael ei chyfathrebu'n eglur
- Yn deg
- Yn amserol. Nod y GPCC yw ateb eich apêl o fewn 16 wythnos, a byddwch yn derbyn y newyddion diweddaraf am gynnydd eich apêl yn rheolaidd

Os nad ydych yn credu y bodlonwyd y safonau hyn, cysylltwch â'r Pennaeth Atebolrwydd yn y lle cyntaf, ac yna'r Cyfarwyddwr Llywodraethu.
Am fanylion cyswllt, gweler Adran 7.

1. A yw fy nghwyn yn gymwys ar gyfer apelio i'r GPCC?

Mae'n rhaid i'ch cwyn fodloni'r meini prawf canlynol.

- **Mae'n rhaid iddi fod yn gŵyn olygyddol.** Mae'n rhaid i'ch cwyn fod am gynnwys (rhaglen neu erthygl ar-lein er enghraifft) y mae'r BBC yn gyfrifol amdani'n olygyddol. Efallai y byddwch yn gwneud "cwyn parti cyntaf" am driniaeth annheg neu dorri cyfrinachedd sydd wedi effeithio arnoch chi'n uniongyrchol. Neu efallai y byddwch yn gwneud "cwyn safonau" trydydd parti, lle tybiwch bod y cynnwys wedi methu â bodloni safonau golygyddol y BBC mewn rhyw ffordd. http://www.bbc.co.uk/guidelines/editorialguidelines/

- **Mae'n rhaid i'ch cwyn fod wedi bod drwy** brosesau ymdrin â chwynion rheolwyr y BBC eisoes (gweler www.bbc.co.uk/complaints am fanylion). Fel rheol, bydd hyn yn golygu bod **BBC Information** ac **Uned Cwynion Golygyddol** (ECU) y BBC wedi archwilio'ch cwyn. Weithiau, fodd bynnag, mae cwyn y tu allan i gylch gorchwyl yr ECU, ond yn darparu tystiolaeth sy'n awgrymu y torrwyd safonau golygyddol yn ddifrifol. Mewn achos o'r fath, mae'n rhaid bod **Cyfarwyddwr Isadrannol y BBC neu unigolyn a enwebwyd ganddo i ymateb ar ei ran** wedi ystyried eich cwyn.

Os nad ydych yn fodlon gyda'r ymateb a gawsoch gan yr ECU neu'r Cyfarwyddwr Isadrannol yna:

- **Mae'n rhaid i chi ysgrifennu i apelio o fewn dau fis** i dderbyn yr ohebiaeth derfynol gyda'r ECU neu Gyfarwyddwr Isadrannol am eich cwyn.

Ni fydd y GPCC yn ystyried apêl sy'n flinderus neu'n ddibwys, neu sy'n ymwneud â chynnwys nad yw wedi'i ddarlledu neu ei gyhoeddi eto.

Gallai'r GPCC benderfynu peidio ag ystyried apêl sy'n ymwneud â materion sy'n destun, neu'n debygol o fod yn destun neu'n berthnasol i achos cyfreithiol. Gwneir y penderfyniad hwn ar sail pob achos unigol.

Mae'r GPCC a/neu'r Cynghorydd Cwynion hefyd yn cadw'r hawl i anfon cwyn yn ôl i'r ECU neu at Gyfarwyddwr Isadrannol, yn enwedig os ydynt o'r farn na chynhaliwyd archwiliad addas nag ymateb addas i'r gŵyn wreiddiol gan y Rheolwyr.

2. Sut alla i apelio?

Anfonwch eich apêl at:

Bydd manylion llawn lle i anfon gohebiaeth apêl yn ymddangos yma.

Dylid anfon apeliadau ysgrifenedig fel rheol, wedi'u teipio'n ddelfrydol yn hytrach na'u hysgrifennu â llaw. Mae hyn yn cynorthwyo'r GPCC i fod yn eglur am delerau'ch apêl. Ond os oes gennych anabledd sy'n gwneud hyn yn anymarferol, cysylltwch â'r Cynghorydd Cwynion am gymorth a chyngor ar sut i gyflwyno'ch apêl.

Dylai'r llythyr apêl gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Crynodeb o'ch cwyn wreiddiol yn cynnwys manylion y rhaglen(ni) neu'r eitem, y sianel neu'r gwasanaeth a'r dyddiad darlledu neu gyhoeddi. Os yw'ch cwyn yn ymwneud â chynnwys gwefannau'r BBC, bydd y GPCC yn ystyried apêl dim ond os darperir copi o'r deunydd fel rheol. Mae o gymorth mawr i'r pwyllgor os yw cwynion wedi'u crynhoi'n gyfres o bwyntiau cryno, a'u hesbonio gan ddefnyddio enghreifftiau penodol o'r rhaglen neu'r wefan rydych chi'n cwyno amdani. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i sicrhau ein bod yn deall union natur a sail eich cwyn.
- Dyddiad eich cwyn wreiddiol
- Dyddiad yr ohebiaeth derfynol gyda'r ECU neu'r Cyfarwyddwr Isadrannol dan sylw
- Y rhesymau pam rydych yn anfodlon â phenderfyniad(au) yr ECU neu'r Cyfarwyddwr Isadrannol

Cyn cyflwyno'ch apêl, fel rheol gallwch ofyn hefyd i gael gweld crynodeb o'r deunydd roedd yr ECU neu Gyfarwyddwr y BBC yn dibynnu arno'n flaenorol wrth ymateb i'ch cwyn (trawsgrifiadau neu ddatganiadau gan wneuthurwr y rhaglen neu'r tîm golygyddol ar-lein er enghraifft). Efallai y byddwch am roi eich sylwadau am y deunydd hwn yn eich llythyr apelio.

Bydd y Cynghorydd Cwynion yn yr Uned Lywodraethu'n **asesu'ch apêl** yn ôl y meini prawf a amlinellir yn Adran 2.

Bydd y Cynghorydd Cwynion yn ysgrifennu atoch os yw'n credu bod eich cwyn yn gymwys ar gyfer apelio, gan esbonio'r rhesymau am y penderfyniad hwnnw. Os nad ydych yn fodlon â'r asesiad hwn, gallwch ofyn i'r Pennaeth Atebolrwydd adolygu'r penderfyniad. Os yw'r Pennaeth Atebolrwydd yn cadarnhau'r penderfyniad nad yw'ch apêl yn bodloni'r meini prawf, daw'r ohebiaeth i ben bryd hynny fel rheol.

Dylid cyfeirio cwynion am broses weinyddol gweithdrefnau apelio GPCC at y Cyfarwyddwr Llywodraethu.

Os yw'ch cwyn yn gymwys ar gyfer apelio, cewch lythyr sy'n cydnabod ein bod wedi ei derbyn, sy'n esbonio'r broses ac yn cyflwyno'r amserlen ar gyfer ymdrin â'ch apêl. Bydd unrhyw oedi yn yr amserlen yn cael ei gyfathrebu a'i esbonio'n eglur.

3. Sut mae apêl yn cael ei pharatoi ar gyfer y GPCC?

Mae'r Cynghorydd Cwynion yn gweithio gyda Chynghorydd Golygyddol annibynnol i benderfynu beth fydd ei angen ar y GPCC i ystyried eich cwyn. Bydd hyn yn cynnwys yr ohebiaeth a deunydd arall yn ymwneud â'ch cwyn hyd yn hyn.

Gallai hefyd gynnwys:

- Briff i'r GPCC gan Gynghorydd Golygyddol annibynnol am y materion golygyddol a godwyd gan eich cwyn
- Ymchwil pellach i'r ffeithiau sy'n ymwneud â'r gŵyn, yn cynnwys cael cyngor yn ôl yr angen

Os ydych wedi gwneud cwyn am driniaeth annheg neu dorri cyfrinachedd sy'n effeithio arnoch yn uniongyrchol, gellir penodi archwilydd annibynnol i archwilio'ch cwyn, a rhoi asesiad i'r GPCC o'r honiadau a wnaethoch.

Gall y Cynghorydd Golygyddol neu'r Archwilydd Annibynnol gysylltu â chi a/neu'r cyflenwyr rhaglenni am ragor o wybodaeth neu ymatebion pellach (os byddwn yn cysylltu â chi, gofynnwn i chi ymateb o fewn pymtheg diwrnod gwaith fel rheol).

Fel rheol, bydd y Cynghorydd Cwynion yn anfon unrhyw ddeunydd o unrhyw archwiliad neu gyngor pellach atoch chi ac i'r cyflenwyr cynnwys a rheolwyr perthnasol y BBC. Bydd cyfle i chi roi eich sylwadau am y deunydd hwn, a gofynnir i chi ymateb o fewn ugain niwrnod gwaith.

Os bydd nifer fawr o achwynwyr yn apelio yn erbyn penderfyniad penodol gan yr ECU neu Gyfarwyddwr Isadrannol, bydd angen addasu rhai o'r gweithdrefnau hyn a bydd y Cynghorydd Cwynion yn llunio crynodeb o'r materion amrywiol a godwyd gan eu cwynion. Bydd yr apeliadau'n cael eu hystyried gyda'i gilydd wedyn ar sail yr holl faterion a nodwyd.

4. Beth yw proses y GPCC ar gyfer ystyried apêl?

Mae'r GPCC yn adolygu'r deunydd a gesglir wrth baratoi'ch apêl, yn cynnwys eich sylwadau am y deunydd a gasglwyd gan y Cynghorydd Cwynion. Mae'r GPCC yn cyfarfod unwaith y mis. Lle mae angen, gall ohirio apêl a gofyn am archwiliad pellach.

Bydd y GPCC yn asesu'r cynnwys rydych wedi cwyno amdano yn ôl yr holl safonau, codau a chanllawiau perthnasol, yn cynnwys Siarter a Chytundeb a Chanllawiau Golygyddol y BBC. Daw i un o'r casgliadau canlynol am eich apêl: cadarnhau, cadarnhau'n rhannol, peidio cadarnhau, wedi'i datrys eisoes (lle bu camgymeriad ac mae'r GPCC yn fodlon bod y rheolwyr wedi cydnabod problem ac wedi ymdrin â'r mater mewn ffordd addas eisoes). Bydd Cadeirydd y GPCC yn anfon y penderfyniad atoch, a nodyn o drafodaeth y GPCC, yn ysgrifenedig.

Mae'r GPCC yn cyhoeddi ei benderfyniadau mewn bwletin bob tri mis, sydd ar gael yn bbcgovernors.co.uk neu wedi'i argraffu gan y Cynghorydd Cwynion (gweler y cyfeiriad yn Adran 7). Bydd eich enw'n cael ei dynnu oddi ar y penderfyniad, ac eithrio lle rydych wedi cymryd rhan uniongyrchol mewn rhaglen a/neu gynnwys.

Y GPCC yw cam olaf proses gwyno'r BBC. Mae ei benderfyniadau am gwynion am safonau cywirdeb ac amhleidioldeb yn derfynol, gan mai'r Llywodraethwyr yw rheoleiddwyr y materion hyn. Fel arall, os nad ydych yn fodlon â phenderfyniadau'r Pwyllgor, efallai yr hoffech ystyried cysylltu â'r rheoleiddiwr darlledu, Ofcom (www.ofcom.org.uk). Gallwch hefyd gwyno'n uniongyrchol i Ofcom yn y lle cyntaf.

5. Gwrandawiadau

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y GPCC yn ystyried apeliadau heb wrandawiad llafar.

Gallai'r Cadeirydd benderfynu cynnal gwrandawiad yn yr achoson mwyaf difrifol os ydych wedi cwyno am driniaeth annheg neu dorri cyfrinachedd sydd wedi effeithio arnoch yn uniongyrchol, a lle na ellid mynd i'r afael â ffeithiau arwyddocaol mae anghytuno yn eu cylch yn foddhaol trwy'r broses archwilio, ac, ym marn y Cadeirydd, y byddai posib eu datrys mewn gwrandawiad.

Cadeirydd y GPCC sy'n cadeirio gwrandawiadau, neu'n enwebu aelod o'r GPCC i gadeirio gwrandawiadau yn ei absenoldeb. Bydd o leiaf dau aelod arall o'r GPCC yn bresennol.

Fel rheol, byddwch yn cael rhybudd o bump ar hugain o ddiwrnodau gwaith o leiaf am wrandawiad. Byddwch yn cael eich gwahodd i fynychu, ynghyd â'r cyflenwyr cynnwys a rheolwyr y BBC ar gais y GPCC.

Gall pobl eraill (uchafswm o ddau fel rheol) fynychu gyda'r holl bartïon dan sylw a dylent roi eu henwau a disgrifiad o'u pwrpas i'r Pennaeth Atebolrwydd o leiaf saith niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Bydd y rhai sy'n mynychu gyda'r partïon yn mynychu fel cynghorwyr yn hytrach nag eiriolwyr. Ni ddylai fod angen cynrychiolaeth gyfreithiol gan mai dim ond gyda chaniatâd ymlaen llaw y caniateir hyn, ac yn ôl disgresiwn Cadeirydd y GPCC. Gall y Cynghorydd Golygyddol, y Pennaeth Atebolrwydd a'r Cynghorydd Cwynion fynychu hefyd.

Ac eithrio'r bobl a grybwyllir, cynhelir y gwrandawiadau'n breifat.

Bydd Cadeirydd y GPCC yn penderfynu ar yr union fformat ar gyfer pob gwrandawiad, ond bydd fel a ganlyn fel rheol:

- Amlinelliad o drefn y gwrandawiad gan y cadeirydd
- Cewch eich gwahodd i grynhoi eich cwyn wreiddiol a sail eich apêl
- Bydd y cyflenwyr cynnwys/rheolwyr y BBC yn ymateb i'ch cwyn yn gryno
- Gall y cadeirydd ac aelodau eraill y GPCC ofyn cwestiynau i chi a phobl eraill sy'n bresennol
- Gall y cadeirydd, ganiatáu i'r ddau barti holi ei gilydd
- Yna bydd cyfle i'r cyflenwyr cynnwys a/neu reolwyr y BBC wneud datganiad terfynol byr gyda datganiad cryno gennych chi i ddilyn.

Ni dderbynnir deunydd newydd yn y gwrandawiad fel rheol.

Ar ôl gwrandawiad, bydd y Cadeirydd ac aelodau'r GPCC oedd yn bresennol yn dod i benderfyniad am yr apêl.

6. Beth sy'n digwydd os bydd apêl yn cael ei chadarnhau?

Pan gadarnheir apêl, bydd y GPCC yn:

- Gofyn i'r rheolwyr gymryd unrhyw gamau adfer priodol rhag i'r broblem godi eto a/neu ystyried camau disgyblu priodol, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor
- Cyhoeddi ei benderfyniad, yn cynnwys unrhyw gyfarwyddiadau i'r rheolwyr am gamau adfer ar y wefan gwynion.
- Sicrhau bod y BBC yn ymddiheuro i'r sawl sy'n apelio am fethu â chydymffurfio â'r safonau rhaglenni. Efallai y bydd y Pwyllgor yn gofyn am ymddiheuriad neu gywiriad ar yr awyr neu ei gyhoeddi hefyd.

7. Pwy ddylwn i gysylltu â nhw am y broses apelio?

Bydd manylion gohebiaeth a chyswllt llawn yn ymddangos yma.